**CLWB FFERMWYR IFANC Y FRO**

Eisiau hwyl?
Eisiau gwneud ffrindiau newydd?
Eisiau dysgu sgiliau newydd - a mwynhau yr un pryd?
Os ydych chi wedi ateb “Ydw” uchod, dim ond un lle yn yr ardal yma sydd i chi …

**CLWB FFERMWYR IFANC Y FRO**

Pwy ydyn ni?
Grŵp o bobl ifanc, soffistigedig, cŵl.
Ymhlith ein diddordebau ni mae cneifio defaid … godro buchod … lladd gwair … a …
Na - dim ond jocian!
Rydyn ni’n mwynhau cyfarfod â phobl newydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol a chwaraeon, cymdeithasu, mynd allan - a chael hwyl.

Os dewch chi i un o’n cyfarfodydd ni, dyna beth fyddwch chi’n ei wneud hefyd!

**Noson Tân Gwyllt** *(ym mis Tachwedd)*
**Eisteddfod Ffermwyr Ifanc** *(ym mis Tachwedd)*
**Parti Nadolig** *(cyn y Nadolig)*
**Noson Dwynwen** *(ym mis Ionawr)*
**Noson Ffolant** *(ym mis Chwefror)*
**Noson Dewi Da** *(ym mis Mawrth)*
a mwy!

Hefyd, mae gweithgareddau o bob math wedi eu trefnu ar gyfer ein cyfarfodydd wythnosol, e.e. chwaraeon amrywiol a gwahanol, sioe ffasiynau, sesiwn sgiliau coginio, a llawer iawn mwy.

**Beth amdani?**
Pryd: Bob nos Lun o 7 o’r gloch ymlaen
Ble: Coleg y Fro